Archwilio Cymru
Audit Wales

**Cyfeirnod:** IR911

**Dyddiad cyhoeddi:** 25 Mawrth 2024

## Cyngor Cymuned Coedpoeth

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth, dyddiedig 26 Chwefror 2024, ynghylch cyngor a roddwyd gan Archwilio Cymru naill ai i Glerc neu Gadeirydd Cyngor Cymuned Coedpoeth.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod:

**1. Unrhyw gyngor ysgrifenedig a roddir gan Archwilio Cymru, naill ai'n ganolog neu gan gynrychiolydd rhanbarthol i Glerc, neu Gadeirydd, Cyngor Cymuned Coedpoeth mewn perthynas â'r canlynol:**
**a) Cyfreithlondeb neu ddiffyg cyfreithlondeb y gyllideb wreiddiol ar gyfer 2023-2024 a fabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2022, gan y Cyngor Cymuned.** Ni chedwir y wybodaeth hon.
**b) Y sail ar gyfer paratoi Datganiadau Ariannol diwedd blwyddyn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023?** Ni chedwir y wybodaeth hon.
**2. Os na roddwyd cyngor ysgrifenedig, unrhyw nodiadau cyfoes o gyngor dros y ffôn a roddwyd ar yr un pynciau naill ai gan eich Swyddfa Ganolog neu Gynrychiolydd Rhanbarthol.** Ni chedwir y wybodaeth hon.
**3. Cadarnhad nad oes cofnodion o'r fath yn bodoli.**

Nid oes unrhyw gofnodion o gyngor a roddwyd i Gyngor Cymuned Coedpoeth, gan na ddarparwyd unrhyw gyngor. O ganlyniad, nid ydym yn cadw gwybodaeth sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol â'ch disgrifiad.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y ffordd yr ymdriniais â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

Swyddog Gwybodaeth